

Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr 2018-2023

3ydd Adroddiad Blynyddol

Mai 2020 – Mai 2021



Cynnwys

Rhagair	1
Cynllun Llesiant y BGC	2
Strwythur y BGC	3
Meysydd Cynnydd y BGC	4
Prosiectau ychwanegol a ddatblygwyd gan y Grwpiau Gweithredu	9
Gweithio Rhanbarthol	14
Cysylltiadau â Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru	16
Pum Ffordd o Weithio	18
Meysydd i'w datblygu dros y flwyddyn sydd i ddod	19

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno trydydd adroddiad blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Gaerfyrddin ar ôl cyhoeddi ein Cynllun Llesiant ym mis Mai 2018. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn heriol na welwyd ei thebyg o'r blaen. Mae Covid-19 wedi effeithio ar bob un ohonom – gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a'n cymunedau ac rydym wedi dod at ein gilydd i helpu pobl y mae angen cymorth ymarferol ac emosiynol arnynt. Mae sicrhau gwell cyfathrebu gyda'n sefydliadau partner wedi bod yn hanfodol er mwyn ymateb i'r dirwedd sy'n newid yn barhaus a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau.

Mae partneriaid gwasanaethau cyhoeddus wedi canolbwyntio yn y tymor byr ar gefnogi'r adferiad yn sgil y pandemig a chydweithio i ddatblygu cynlluniau ar gyfer adferiad tymor canolig a hirdymor. Credaf yn gryf fod y gynghrair hon wedi cael ei gefnogi gan y cysylltiadau partneriaeth cryf sy'n bodoli, ar ôl cael eu meithrin dros y blynyddoedd drwy waith y BGC. Rydym yn parhau i rannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu a byddwn yn parhau i ddysgu o'r ffordd y gwnaethom addasu wrth ystyried hefyd y cyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol, gan wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Mae llawer o'n gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn gweithio'n wahanol, gyda staff yn gweithio gartref a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir. Fel BGC, rydym wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd i ysgogi ein hagenda pwysig - ac wrth gynnal cyfarfodydd ar-lein, rydym wedi gweld rhai pethau cadarnhaol, gyda gostyngiadau sylweddol mewn amser teithio a milltiroedd, mae'r effaith ar yr amgylchedd wedi bod yn fuddiol, a byddwn yn parhau i ystyried y ffordd orau o weithio'n effeithiol yn y dyfodol.

Mae'r BGC yn dwyn ynghyd uwch gynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein preswylwyr. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ychwanegu gwerth at wasanaethau ein gilydd ac mae cyfleoedd enfawr o hyd i ddatblygu dulliau arloesol, gan ddysgu o'n profiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r hyn nad oedd efallai yn ymddangos yn bosibl o'r blaen, drwy ystyried gwahanol ffyrdd o ddiwallu anghenion ein cymunedau. Mae gwaith ein Grwpiau Gweithredu yn dal i fynd rhagddo, gan wneud gwaith ar y cyd i weithredu camau allweddol i gyflawni amcanion y Bwrdd. Mae partneriaid yn ystyried sut y gallwn wneud pethau'n wahanol ac adeiladu ar ymgysylltiad â'n cymunedau lleol.

Rwy'n falch o'r ymdrechion cydweithredol diweddar, er gwaethaf yr amgylchiadau heriol, ac rwy'n falch o allu dweud ein bod yn dechrau gwneud cynnydd gwirioneddol yn Sir Gaerfyrddin, gan weithio i ail-lunio gwasanaethau cyhoeddus er gwell. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu llawer o'n cyflawniadau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, sef blwyddyn sydd wedi pwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus i'n bywydau o ddydd i ddydd.

Unwaith eto, diolch i bawb sy'n rhan o hyn ac sy'n parhau i wneud popeth o fewn eu gallu i gyflawni ein Cynllun Llesiant. Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i weld sut y gallwn sicrhau dyfodol gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Barry Liles, Cadeirydd y BGC a Dirprwy Is-ganghellor (Sgiliau a Dysgu Gydol Oes), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant



Cynllun Llesiant y BGC

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut y bydd partneriaid y BGC yn cydweithio i fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar lesiant dinasyddion a chymunedau'r Sir. Dyma'r partneriaid:



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



Department
for Work &
Pensions



colegsirgâr

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar gyflawni'r pedwar amcan llesiant a nodwyd yn sgil ymgysylltu helaeth â staff rheng flaen, preswylwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.



Arferion Iach - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd



Ymyrraeth Gynnar ac Atal - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt.



Cysylltiadau Cryf - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt, sy'n gallu addasu i newid




Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl a lleoedd yn ardaloedd trefol a gwledig ein sir.



Strwythur y BGC

Mae'r strwythur sydd ar waith wedi'i lunio i sicrhau bod y Cynllun Llesiant yn cael ei gyflawni'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cyfres o Grwpiau Gweithredu er mwyn gwneud cynnydd yn erbyn y camau tymor byr yn amcanion Llesiant y BGC. Ceir Arweinydd Arbenigol, Is-gadeirydd a Swyddog Arweiniol ym mhob grŵp.



Mae'r Grwpiau Gweithredu wedi bod yn cyfarfod ers canol 2018 ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf maent wedi bod yn gwneud cynnydd da o ran eu cynllun prosiect i gyflawni yn erbyn y Cynllun Llesiant. Gweinyddir y Grwpiau Gweithredu hyn gan Dîm Cymorth BGC y Cyngor ac mae'r tîm hefyd yn gweithredu fel cyswllt rhwng y Grwpiau Gweithredu er mwyn nodi meysydd cydweithio posibl ac osgoi dyblygu.

Mae'r Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel, grŵp amlasiantaethol statudol, hirsefydlog, yn parhau i fod yn atebol i'r BGC ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd. Mae'n cyfarfod bob chwarter ac mae'n cyd-fynd yn llwyr â dau grŵp arall yn y sir sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol - Bwrdd CONTEST (gwrthderfysgaeth) a'r Bwrdd Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol. Mae gwybodaeth am waith y grwpiau hyn wedi'i chynnwys yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Bydd strwythur y BGC yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cefnogi gwaith y Bwrdd yn y modd gorau, gan gynnwys cyflawni cynnydd yn erbyn y Cynllun Llesiant.

Meysydd Cynnydd y BGC

Mae nifer o feysydd wedi cael eu datblygu neu eu cefnogi gan y BGC, yn ogystal â'r gwaith a wnaed gan y Grwpiau Gweithredu i gyflawni amcanion y BGC.



Mae'r cydweithio parhaus â'r saith Cyngor Tref a Chymuned yn Sir Gaerfyrddin sy'n destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i ddatblygu ac elwa ar weithio'n agosach. Mae cynrychiolwyr o'r cynghorau hynny (Tref Llanelli, Llanelli Wledig, Pen-bre a Phorth Tywyn, Llanedi, Llannon, Cwmaman a Chaerfyrddin) bellach yn mynd i bob cyfarfod y BGC fel llais i'r sector cynghorau tref a chymuned. Mae Tîm Cymorth y BGC wedi parhau i weithio gyda Chlercod a Swyddogion Datblygu y cynghorau yn ystod y flwyddyn. Mae trafodaethau rheolaidd gyda'r cynghorau lleol hyn wedi galluogi mwy o gydweithio mewn mentrau a arweinir yn lleol a fydd yn parhau yn y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r cynghorau wedi gweithio gyda'r BGC ar brosiect plannu coed, a ariennir drwy CNC (mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y diweddariad gan y Grŵp Gweithredu

Amgylchedd iach). O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n ofynnol i'r cynghorau adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion y Cynllun Llesiant Lleol. Cyflwynodd y cynghorau lleol eu hadroddiadau blynyddol yng nghyfarfodydd y BGC yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd sylw i nifer o faterion a mentrau gan bartneriaid yn ystod y trafodaethau hyn a gwnaed cysylltiadau ar gyfer datblygu a chydweithredu yn y dyfodol. Yn y dyfodol, cytunwyd y bydd digwyddiad blynyddol yn cael ei gynnal gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned i nodi arfer da a rhannu adroddiadau blynyddol.

Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud gan aelodau'r BGC yn gweithio ar y cyd i ddatblygu ymhellach y gwaith parhaus gyda phartneriaid a'r gymuned i adfywio ward Tyisha yn Llanelli. Mae'r ward hon yn un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin ac mae partneriaid wedi datblygu cynllun trawsnewidiol i fynd i'r afael â'r amddifadedd hwn a'r blaenoriaethau a nodwyd gan y gymuned gan gynnwys pryderon ynghylch diogelwch cymunedol a'r amgylchedd cymdeithasol a ffisegol. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â datblygiad mentrau eraill a gynllunnir yn yr ardal megis adfywio canol y dref a datblygu Pentre Awel, y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae mentrau wedi cynnwys:

- Recriwtio dau warden cymunedol penodedig i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, annog cynlluniau gwyllo cymdogaeth a hyrwyddo cydlyniant, dau swyddog tai penodedig i arwain ar faterion sy'n ymwneud â thenantiaid y Cyngor a hyrwyddo ymgysylltu cymunedol a swyddog datblygu prosiectau i ymgysylltu â phobl ifanc a chanolbwyntio ar ddarparu canolfan newydd ar gyfer yr ardal.

- Sefydlu pedair ffrwd waith penodedig - Troseddau ac Anhrefn, Tai ac Adfywio, yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth, a Phlant, Teuluoedd a Chymunedau – i arwain ar wahanol agweddau ar y prosiect
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu banc bwyd newydd ar gyfer yr ardal
- Datblygu tai teulu newydd ar gyfer yr ardal a gwella stoc arall
- Ailgartrefu nifer o denantiaid oedd yn byw yn hen flociau'r 5 Tŷ a rhoi llety amgen a mwy addas iddynt.
- Symud y ddau brosiect ieuenctid allan o'r ardal a dod o hyd i amrywiaeth o opsiynau a fydd yn darparu mwy o gyfleoedd a dyheadau.
- Datgomisiynu ac ail-gomisiynu ein llety dros dro ac ystyried gwasgaru unedau ar draws Llanelli yn hytrach na'u cyfyngu i un ardal.
- Gwella safonau tai yn y Sector Rhent Preifat gyda Swyddog Iechyd yr Amgylchedd penodedig yn gwneud gwaith rhagweithiol ac adweithiol ac yn arwain ar gwynion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, sŵn, a gwastraff
- Gweithio gyda landlordiaid preifat i sefydlu fforwm i feithrin perthnasoedd a gwella cyfathrebu
- Helpu trigolion Tyisha ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys i sefydlu dau Gynllun Gwarchod Cymdogaeth, gyda'r nod o ddatblygu cymunedau mwy diogel a helpu i atal troseddu
- Tîm gwastraff penodedig yn glanhau'r lonydd cefn a'r strydoedd gan wella'r amgylchedd a chymryd camau gorfodi lle bo angen.



Mae gweithdy'n cael ei gynllunio ar gyfer partneriaid BGC ar draws y rhanbarth i ddatblygu cyfleoedd i gydweithio gyda golwg ar leihau carbon. Mae hyn yn dilyn datganiad Argyfwng Hinsawdd y Cyngor, sy'n ymrwymo i wneud y Cyngor yn awdurdod lleol di-garbon erbyn 2030 a gweithio gyda'r BGC i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer gwneud arbedion carbon. Bydd y gweithdy yn amlinellu gweithgarwch presennol ac arfaethedig sefydliadau sy'n bartneriaid i ymateb i newid yn yr hinsawdd a hwyluso trafodaeth ynghylch cydweithio yn y dyfodol.

Mae'r BGC wedi adolygu ei flaenoriaethau yn dilyn trafodaethau helaeth yn ystod y flwyddyn i ystyried cyfleoedd sy'n codi yn sgil y gwersi a ddysgwyd o brofiadau sefydliadau o ddelio â'r pandemig coronafeirws a'r cydweithio gwell a ddatblygodd o ganlyniad. O ganlyniad i'r heriau a wynebwyd, trafododd partneriaid gyfleoedd i ailystyried sut maent yn gweithio gyda'i gilydd a sut y caiff gwasanaethau eu darparu.

Nodwyd y prosiectau blaenoriaeth canlynol i sicrhau bod camau gweithredu'r BGC yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gyfleoedd cydweithredol allweddol y cytunwyd arnynt ac yn cefnogi adferiad y sir:

Amcan y Cynllun Llesiant	Prosiect
Arferion Iach	• Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer lechyd (rhanbarthol a chysylltiad â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol) • Asesiad Risg Amgylcheddol • Cynllun Gwydnwch Hinsawdd Castellnewydd Emlyn • Cyfleoedd i gydweithio i ymateb i'r argyfwng hinsawdd
Atal ac Ymyrraeth Gynnar	• Pwyslais newydd ar ddatblygu dulliau o rannu gwybodaeth sefydliadol am fod yn agored i niwed er mwyn datblygu proffil gwell o anghenion yn Sir Gaerfyrddin i gynllunio a chanolbwyntio'r gwasanaethau a ddarperir. Adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Heddlu Dyfed-Powys drwy'r Bwrdd Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol.
Cysylltiadau Cryf	• Gwirfoddoli (cysylltiad â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol)
Pobl a Lleoedd Ffyniannus	• Gweithio gyda'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu meysydd blaenoriaeth Sir Gaerfyrddin ymhellach yn y dyfodol • Caffael yn y sector cyhoeddus – drwy brosiect Cronfa Her yr Economi Sylfaenol i ddechrau • Clwstwr caffael blaengar rhanbarthol gyda Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
Cymunedau Mwy Diogel	• Gweithio tuag at sicrhau bod partneriaid yn cydymffurfio â dyletswyddau Gwrthderfysgaeth gan sicrhau bod hyfforddiant staff priodol yn cael ei ddarparu • Parhau i ddatblygu cydweithio â phartneriaid i fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol gan gynnwys gweithgarwch Llinellau Cyffuriau • Datblygu'r defnydd o dechnoleg 'Rhynggrwyd Pethau' i fynd i'r afael â phroblemau troseddau ac anhrefn lleol • Cynyddu ymwybyddiaeth o seiberdroseddau ymhlith partneriaid • Dysgu o themâu a nodwyd gan ddynladdiadau domestig • Dysgu o themâu a nodwyd gan ddynladdiadau domestig • Gweithio i ddod â chymunedau at ei gilydd gan nodi unrhyw densiynau sy'n effeithio ar gydlyniant cymunedol
Cyfleoedd cydweithio	• Datblygiadau o ran canolfannau amlasiantaeth/amlsector newydd yng nghanol trefi neu mewn cymunedau – wrth i ni lacio'r trefniadau o ran gweithio gartref, mae angen sefydlu ffyrdd newydd o weithio drwy leihau'r angen am nifer o bencadlysoedd sefydliadol ac edrych ar gyfleoedd i ddatblygu dull amlasiantaeth o gael mynediad cymunedol mwy lleol at wasanaethau, mannau gweithio ystwyth i staff a/neu leoliadau i staff allgymorth siarad ag eraill heb orfod dychwelyd i'r brif swyddfa. • 10 tref wledig • Rhaglen Adfywio Tyisha • Asesiad Llesiant

Y ddwy flaenoriaeth newydd y cytunwyd arnynt oedd canolfannau amlasiantaeth/amlsector yng nghanol trefi neu mewn cymunedau a datblygu trefniadau rhannu gwybodaeth i alluogi gwell defnydd o wybodaeth sefydliadol am fod yn agored i niwed.



Cymunedau Arloesi Economi Gylchol

Hyrwyddodd y BGC y fenter '**Cymunedau Arloesi Economi Gylchol**' i'w aelodau, gan annog rheolwyr ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector i gymryd rhan mewn rhaglen 10 mis a gynhelir gan Brifysgol Abertawe. Nod y rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw cynorthwyo timau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu atebion gwasanaeth newydd i wella cynhyrchiant a sicrhau manteision yr Economi Gylchol drwy sicrhau bod deunyddiau yn cael eu defnyddio cyhyd ag y bo modd ac osgoi'r holl wastraff. Mae saith carfan ar draws rhanbarth Bae Abertawe gan gynnwys un sy'n cynnwys partneriaid BGC Sir Gaerfyrddin sy'n gweithio ar y fenter canolfan canol tref a fydd yn ategu'r gwaith partneriaeth parhaus.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r BGC ym mis Gorffennaf 2020 ar **raglen Seilwaith Digidol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe**. Mae llawer o bartneriaid y BGC wedi bod yn rhan o'r broses o ddechrau'r rhaglen £55 miliwn hon sydd bellach wedi cael cymeradwyaeth Weinidogol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd y gwaith o gyflawni'r prosiectau unigol o fewn y rhaglen bellach yn dechrau ac yn cael ei gyflawni dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys ymyriadau i wella cysylltedd digidol gwledig, buddsoddi mewn seilwaith ffibr llawn ar draws ardaloedd trefol ac ardaloedd twf economaidd allweddol a buddsoddi mewn

rhwydweithiau diwifr y genhedlaeth nesaf ar draws y rhanbarth. Gwahoddir partneriaid y BGC i gymryd rhan yn y cam nesaf sef gweithdai i ddatblygu manylion penodol yr ymyriadau unigol.



Mae'r BGC hefyd wedi cael gwybod am y datblygiadau a'r cyfleoedd diweddaraf sy'n ymwneud â'r prosiect sylweddol **Pentre Awel** sy'n cael ei ddatblygu yn Llanelli. Mae llawer o aelodau'r BGC, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, y Brifysgol a'r Coleg, eisoes yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect sy'n cael ei arwain gan y Cyngor fel rhan o **Fargen Ddinesig Bae Abertawe**. Mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn yn golygu y gellir hawlio £40 miliwn o gyllid Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i helpu i gyflawni'r cynllun pwysig ar y safle 83 erw yn Llynnoedd Delta, Llanelli. Pentre Awel fydd y datblygiad cyntaf o'i gwmpas a'i faint yng Nghymru a bydd yn dwyn ynghyd datblygiadau arloesol ym maes gwyddorau bywyd, gofal iechyd cymunedol a chyfleusterau hamdden modern i gyd mewn un lleoliad ar hyd arfordir Llanelli. Bydd yr ymchwil a gwaith datblygu yn helpu i wella dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fyw'n dda. Bydd Pentre Awel yn gartref i dimau o wyddonwyr a busnesau newydd, busnesau sydd wedi'u

hen sefydlu a phobl sy'n newydd i'r maes. Byddant i gyd yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion a cholegau a'r bwrdd iechyd i wella bywyd.



Mae'r prosiect cyffrous yn cynnwys cyfleusterau gofal integredig ac adsefydlu corfforol er mwyn galluogi'r gwaith o brofi a threialu technolegau gwyddor bywyd sydd â'r nod o wella byw'n annibynnol a byw â chymorth. Bydd canolfan sgiliau llesiant yn canolbwyntio ar hyfforddiant iechyd a gofal, ynghyd â chanolfan darpariaeth glinigol i ddarparu gofal amlddisgyblaethol yn nes at adref. Bydd y ganolfan hamdden newydd yn dod â chyfleusterau chwaraeon a ffitrwydd o'r radd flaenaf i bobl Llanelli a'r cyffiniau, gan gynnwys pwll nofio 25 metr ag wyth lôn, campfa newydd o'r radd flaenaf, neuadd chwaraeon ag wyth cwrt a lle chwarae i blant ifanc. Bydd y datblygiad yn dod ag amrywiaeth eang o gyfleoedd gwaith gan greu bron i 2,000 o swyddi gan gynnwys prentisiaethau, a disgwylir iddo roi hwb syfrdanol o £467 miliwn i'r economi leol.

Dechreuodd y BGC ystyried goblygiadau nifer o ddogfennau strategol allweddol a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ac mae'r trafodaethau hyn yn parhau.

Mae'r rhain wedi cynnwys:

- **'Adolygiad o Bartneriaethau Strategol'** gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – roedd yr adolygiad hwn yn ystyried y sefyllfa bartneriaeth eang ac yn nodi meysydd allweddol lle teimlid bod cymhlethdod neu ddyblygu diangen, gan weithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i symleiddio a rhesymoli. Roedd yr adolygiad yn nodi'r camau y gallai'r partneriaethau perthnasol neu Lywodraeth Cymru eu cymryd ar unwaith i resymoli partneriaethau/gwella aliniad a chamau a fyddai'n gofyn am newid deddfwriaethol drwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau.
- **'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020'** gan Gomisiynywyr Cenedlaethau'r Dyfodol - yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o'i fath, gan fodloni'r ddyletswydd statudol ar y Comisiynydd i gyhoeddi'r adroddiad hwn bob pum mlynedd. Mae'r adroddiad yn dadansoddi cynnydd pob corff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, o ran gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ers iddi ddod yn gyfraith yn 2015. Bwriedir cynnal gweithdy i ystyried adroddiad y Comisiynydd ymhellach.
- Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd **'Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yn hyn'** - roedd yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar y rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut y gellir ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol.

Prosiectau ychwanegol a ddatblygwyd gan y Grwpiau Gweithredu

Er nad yw'r Grwpiau Gweithredu wedi gallu gwneud cymaint o gynnydd ag y gobeithiwyd oherwydd y pandemig, gan nad yw rhai o'r grwpiau wedi gallu cyfarfod yn ystod y flwyddyn oherwydd bod swyddogion yn canolbwyntio ar gefnogi'r ymateb i COVID-19 neu'n cael eu hadleoli i wneud hynny, mae nifer o brosiectau wedi'u datblygu.



Mae mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r **Grŵp Gweithredu Amgylchedd Iach**. Arweiniodd y gwaith rhanbarthol ar ddigwyddiadau tywydd garw a gomisiynwyd gan CNC, gan weithio'n agos gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, yn 2019, at ddull gweithredu mwy penodol gan ganolbwyntio ar ddwy o'r cymunedau sydd mewn perygl a nodwyd - Castellnewydd Emlyn yn Sir Gaerfyrddin ac Abergwaun yn Sir Benfro. Comisiynwyd y gwaith hwn ym mis Chwefror 2020 a chafodd ei gwblhau ym mis Rhagfyr. Roedd y prosiect yn cynnwys ymgysylltu ar-lein â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynllun ar gyfer adeiladu gwydnwch hinsawdd drwy nodi effaith uniongyrchol risgiau o ran yr hinsawdd ar eu sefyllfa a'u lleoliad a cheisio eu hymatebion ar sut i feithrin gwydnwch. Mae'r adroddiad terfynol, ei ganfyddiadau a'i argymhellion wedi'u hystyried gan y Grŵp Gweithredu a bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r BGC i'w hystyried.



Dyfarnwyd £25,000 i'r BGC gan CNC i gyflawni prosiectau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Llesiant cyn diwedd mis Mawrth 2021. Cyflwynodd y Grŵp Gweithredu ddau brosiect a gafodd eu cymeradwyo gan y BGC ac yna eu cyflawni'n llwyddiannus:

- 1) menter plannu coed, dan arweiniad y saith cyngor tref a chymuned, sy'n ymgysylltu'n ddiogel ag aelodau lleol o'r gymuned gan gymryd rhan yn y gwaith plannu, elwa ar dreulio amser mewn mannau naturiol a gwella sut mae trigolion yn cymryd perchnogaeth o'u cymunedau a'u hymdeimlad o falchder yn eu cymunedau. Plannwyd bron i 2,350 o goed a chrëwyd wyth coetir a safle plannu coed newydd. Cafodd pedwar grŵp cymunedol eu sefydlu neu eu gwella, sydd bellach yn gweithio gyda'r cynghorau tref a chymuned i reoli'r mannau gwyrdd newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes yn y tymor hir. Ehangwyd y prosiect hwn yn ddiweddarach i gynnwys gwelliannau i gynefinoedd yn dilyn tanwariant ar yr ail brosiect – menter Seilwaith Gwyrdd - oherwydd yr amserlen gyflawni.
- 2) ymchwilio i sut y gellir cynnwys y fenter Seilwaith Gwyrdd yn y gwaith o ailddatblygu Lôn Jackson, Caerfyrddin er mwyn mynd i'r afael â materion allweddol fel ansawdd aer, iechyd a llesiant a gwydnwch hinsawdd, yn ogystal ag adfywio economaidd ac adferiad gwyrdd yn sgil Covid-19, a hefyd yng nghanol tref Castellnewydd Emlyn, gyda'r nod o sicrhau'r lefel uchaf posibl o wydnwch hinsawdd, adfywio economaidd ac iechyd a llesiant. Wrth symud ymlaen, cynhelir gweithdai i rhanddeiliaid gyda chyfranogwyr, a nodwyd o'r gronfa ddata rhanddeiliaid, i drafod canfyddiadau cychwynnol yr adroddiad. Yna defnyddir y gwaith hwn o gasglu a rhannu gwybodaeth i gwblhau prif gynllun Seilwaith Gwyrdd ar gyfer pob safle a fydd yn llywio datblygiad y dyfodol.



Gwnaeth y **Grŵp Gweithredu Cysylltiadau Cryf** gais partneriaeth llwyddiannus i Grant Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru yn sgil y Coronafeirws am £152,991.45 i ddatblygu blaenoriaethau a nodwyd, gan gynnwys Strategaeth Wirfoddoli Sir Gaerfyrddin, porth ar-lein ar gyfer gwirfoddolwyr/gwirfoddoli a hyfforddiant ynghylch digideiddio. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gynnal y gwaith gwirfoddoli a gweithredu cymunedol a welwyd drwy gydol y pandemig ac i sicrhau modelau mwy cynaliadwy o wirfoddoli yn y dyfodol. Bydd y gwaith yn cynnwys mapio'r ddarpariaeth wirfoddoli bresennol ar draws partneriaid BGC, datblygu cynllun ymateb i argyfwng ac ymchwilio i ffyrdd y gellir rhannu gwirfoddolwyr ar draws partneriaid a grwpiau trydydd sector, edrych am gyfleoedd ar gyfer prosesau a rennir megis recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr a sefydlu fframwaith ar gyfer Timau Gwirfoddoli Lleol.



CYSYLLTU
Sir Gâr
CONNECT
Carmarthenshire



Mae'r **Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel** yn parhau i fod yn rhan o waith llwyddiannus i fynd i'r afael â 'Llinellau Cyffuriau' gan gynnwys rhannu gwybodaeth a chymryd rhan mewn ymgyrchoedd megis wythnosau gweithredu wedi'u targedu. Mae Llinellau Cyffuriau yn derm a ddefnyddir ar gyfer rhwydweithiau delio cyffuriau anghyfreithlon, sy'n cael eu rheoli fel arfer gan berson sy'n defnyddio rhif ffôn - sef y 'llinell cyffuriau'. Maent yn dosbarthu cyffuriau drwy ddefnyddio 'rhedwyr' sy'n blant ac oedolion agored i niwed sy'n cael eu recriwtio i gludo cyffuriau ac arian parod ledled y DU. Yn aml mae'r drosedd hon yn gysylltiedig â throseddau difrifol eraill fel camfanteisio rhywiol, trais, gwyngalchu arian a masnachu pobl.



Datblygwyd Strategaeth 'INTACT' newydd ar gyfer 2021-24 gan bartneriaid i fynd i'r afael â Throseddu Difrifol a Chyfundrefnol ledled Dyfed-Powys. Mae cynllun gwaith wedi'i lunio, sesiynau gwybodaeth ac ymwybyddiaeth wedi'u trefnu ar gyfer staff sefydliadau partner ac mae negeseuon atal clir yn cael eu hyrwyddo'n eang i'r cyhoedd, gyda thema newydd bob mis. Dechreuodd Tîm Ymyrraeth gynnar ac Atal newydd ym mis Ebrill yn cynnwys 10 swyddog cymorth cymunedol ar draws y rhanbarth a dadansoddwr. Nod y tîm hwn yw

atal plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed rhag cymryd rhan mewn Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol, neu ddioddef troseddau difrifol a chyfundrefnol. Bydd y tîm yn datblygu ac yn darparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar, gan nodi cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau difyr, ymgymryd â phatrolau penodol i nodi pobl agored i niwed a chefnogi partneriaid wrth weithio gyda phobl ifanc.

Mae sefydliadau partner yn cydweithio'n agos i fynd i'r afael â'r problemau cyffuriau, alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Nhyisha, gyda'r nod o wneud yr ardal yn lle mwy diogel i fyw ynddo. Cafodd arolwg ei gwblhau gan 217 o drigolion Tyisha – 10% o aelwydydd - i roi gwybodaeth am sut maen nhw'n teimlo am blismona, tawelwch meddwl a diogelwch yn eu cymdogaeth. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi a bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â phryderon lleol.

Mae dau warden cymunedol wedi cael eu recriwtio gan y Cyngor ac maent yn gweithio yn Nhyisha a Glan-y-môr i roi sicrwydd a chefnogaeth i'r gymuned leol a chodi ymwybyddiaeth o fesurau atal troseddau. Mae'r wardeiniaid cymunedol yn sefydlu cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth ac yn gweithio gyda phartneriaid i leihau troseddau sy'n ymwneud â defnyddio cyffuriau ac alcohol ac i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys defnyddio teledu cylch cyfyng a fideo cloch drws a ddarperir gan y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel gan ddefnyddio cyllid 'Strydoedd Diogelach' y Swyddfa Gartref a sicrhawyd drwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â thimau plismona bro a chymdeithasau tai lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn tenantiaethau a chyflwyno cynlluniau gweithredu cadarn i'w atal rhag digwydd eto.

Defnyddiwyd cyllid gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau i gefnogi dwy fenter. Mae'r cyntaf yn cyfrannu at brosiect sy'n defnyddio technoleg 'Rhyngwyd Pethau' a LoRaWAN i fynd i'r afael â phroblemau troseddau ac anhrefn lleol. Mae hyn yn rhan o brosiect ehangach i ddatblygu rhwydwaith o drefi SMART ar draws y sir sy'n cyd-fynd â'r gwaith presennol ar draws y deg tref wledig sy'n canolbwyntio ar dwf economaidd. Mae pyrth yn cael eu

gosod yn ein trefi gwledig - Sanclêr, Hendy-gwyn ar Daf, Talacharn, Llanybydder, Llanymddyfri, Castellnewydd Emlyn, Llandeilo, Cwmaman, Cydweli a Cross Hands – a Rhydaman a Phorth Tywyn. Mae trefi clyfar yn defnyddio gwahanol fathau o ddulliau a synwryddion electronig i gasglu data. Defnyddir yr hyn a ddysgir o'r data hwnnw i reoli asedau, adnoddau a gwasanaethau'n effeithlon; yn gyfnewid am hynny, defnyddir y data hwnnw i wella'r gweithrediadau ar draws y dref. Bydd y prosiect peilot hwn yn cael ei ariannu gan Grŵp Gweithredu Lleol y sir, Grŵp Cefn Gwlad, sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen LEADER, yn ogystal â Rhaglen Tasglu'r Cymoedd.

Mae'r ail brosiect yn bartneriaeth rhwng tîm Safonau Masnach y Cyngor a Thîm Troseddau Gwledig yr Heddlu i ddiogelu ein cymunedau ffermio gwledig. Prynydd arwyddion 'dim galw heb wahoddiad' i'w rhoi ar gatiau fferm i helpu i atal bwrgheriaeth drwy weithredu fel arf ataliol i droseddwy'r posibil. Mae cymorth a chyngor hefyd yn cael eu rhoi i ffermwyr ar ddiogelwch.

RHYBUDD

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Safonau Masnach | Trading Standards

WARNING

Heddlu Police
DYFED-POWYS

**NID OES CROESO I
ALWYR HEB WAHODDIAD
I'R FFERM HON**

Nid ydym yn prynu/gwerthu
nwyddau na gwasanaethau yn yr
eiddo hwn. Gadewch a pheidiwch
â dychwelyd neu efallai byddwch
yn cyflawni trosedd.

**COLD CALLERS
ARE NOT WELCOME
AT THIS FARM**

We do not engage with uninvited
traders in the buying or selling of
goods/services. Please leave and
do not return or you may be
committing a criminal offence.



Er nad yw'r **Grŵp Gweithredu Pobl a Lleoedd Ffyniannus** wedi gallu cyfarfod yn ystod y flwyddyn, mae'r cynnydd wedi parhau.

Cronfa Her yr Economi Sylfaenol - prosiect sy'n edrych ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus

Sicrhodd y BGC £100k o gyllid i ddatblygu'r prosiect hwn a oedd yn canolbwyntio ar ddwy elfen allweddol, sef trefniadau caffael y sector cyhoeddus a chadwyni cyflenwi bwyd lleol. Er gwaethaf yr amgylchiadau heriol teimlwyd ei bod yn bwysicach fyth datblygu'r gwaith hwn fel rhan o'r gwaith cynllunio a datblygu adferiad economaidd. Comisiynwyd y Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) i weithio gyda'r Cyngor, y Bwrdd Iechyd, y Brifysgol a'r Coleg i adolygu'r trefniadau caffael presennol a gwariant/cyflenwad bwyd. Oherwydd y pandemig estynnwyd cylch gwaith y Cyngor i gwmpasu pob maes gwariant caffael. Mae canfyddiadau ac argymhellion gwaith CLES wedi'u hystyried a'u cymeradwyo gan bartneriaid y BGC sy'n ymwneud â'r prosiect gyda'r bwriad o sicrhau bod caffael blaengar yn rhan o'r sefydliadau hynny. Fel rhan o ail elfen y prosiect sy'n edrych ar gadwyni cyflenwi bwyd lleol, roedd y prosiect wedi ymgysylltu â dau arbenigwr bwyd i ddeall yn well yr heriau o ran cyflenwad a galw y mae'r sector bwyd yn eu hwynebu ac ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain yn y dyfodol. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad i randdeiliaid ym mis Mawrth fel cyfarfodydd rhithwir a ddenodd lawer iawn o ddiddordeb ac a greodd lawer o drafodaeth a syniadau ar gyfer datblygu ymhellach. Roedd y sesiwn gyntaf yn canolbwyntio ar bennu'r cyfeiriad strategol ac amlinellu'r cyfleoedd ar gyfer arloesi drwy gydweithrediad y sector cyhoeddus ac roedd yr ail ddigwyddiad yn canolbwyntio ar yr ochr gyflenwi a chynhyrchu er mwyn ystyried cyfleoedd i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi'n lleol er mwyn cyflawni gofynion y sector cyhoeddus o bosibl.



Mae sicrhau'r cyllid penodol wedi galluogi'r BGC i ddod â'r rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd ac amlinellu'r posibiliadau ar gyfer datblygu, gan roi ffordd ymarferol ymlaen i bartneriaid gydweithio. Bydd rhagor o waith yn cael ei ddatblygu gyda phartneriaid y BGC ar yr elfennau caffael ac adferiad economaidd ac mae'r drafodaeth yn parhau, gyda chyfleoedd i ddatblygu prosiectau ymhellach mewn perthynas â'r gadwyn cyflenwi bwyd. Mae prosiect y BGC wedi creu nifer o gyfleoedd sylweddol yn y maes gwaith hwn a bydd y rhain yn cael eu datblygu dros y misoedd nesaf.



Sgiliau

Mae diweddariadau rheolaidd wedi'u darparu i bartneriaid BGC gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ar effaith Covid-19 ar economi Sir Gaerfyrddin. Dadansoddir data'r farchnad lafur yn rheolaidd i ddarparu gwybodaeth am yr economi, y farchnad lafur, pobl a sgiliau a darperir data bob deufis i Lywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth a dderbynnir yn uniongyrchol gan fusnesau lleol hefyd yn cael ei hystyried wrth ddadansoddi effeithiau'r pandemig. Darparwyd diweddariadau ynghylch lefelau'r gweithwyr ar ffyrlo, lefelau'r hawlwyd, y nifer sy'n manteisio ar y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth, cyfraddau o ran dileu swyddi, data swyddi gwag, meysydd twf a gofynion sgiliau. Rhoddwyd ystyriaeth i sut mae ystadegau Sir Gaerfyrddin yn cymharu ag ardaloedd eraill yn y rhanbarth, Cymru a'r DU. Roedd y prif ganfyddiadau ynghylch sgiliau fesul sector wedi dangos galw am sgiliau TG ar draws pob sector oherwydd y ffyrdd newydd o weithio.

Mae'r materion a drafodwyd gan y BGC wedi cynnwys yr effaith ar bobl ifanc, yr effaith ar brentisiaethau a chyfluoedd i ddatblygu prentisiaethau peirianeg, y cynnydd sylweddol yn lefelau hawlwyd Credyd Cynhwysol a Lwfans Ceisio Gwaith, er bod y cynnydd a welir yn y sir a'r rhanbarth ar gyfartaledd yn is na'r rhai a welir ledled Cymru a'r DU a'r galw cynyddol am sgiliau mewn rhai sectorau.



Yn anffodus, nid yw'r **Grŵp Gweithredu Gwaith Ymyriadau Cynnar ac Atal** wedi gallu cyfarfod yn ystod y flwyddyn gan fod aelodau allweddol o'r grŵp o lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio eu holl sylw, a hynny'n gwbl briodol, ar ymateb i'r pandemig. Bwriedir i'r cynnydd ar flaenoriaethau megis datblygu'r fenter Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2021-22 gan y bydd hwn yn faes allweddol fel rhan o adferiad yn sgil COVID-19.

Llwyddodd Cyngor Sir Gaerfyrddin, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chyda chefnogaeth y BGC, i gael cyllid drwy raglen Integreiddio a Thrawsnewid y Blynnyddoedd Cynnar – Grant Cyd-gynhyrchu Braenaru ym mis Chwefror 2020. Nod y grant yw datblygu gwaith integredig ar draws proffesiynau a sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd yn ystod blynnyddoedd cynnar bywydau eu plant. Roedd yr arian wedi galluogi swyddog penodedig i arwain ar ddatblygiad strategol Integreiddio'r Blynnyddoedd Cynnar drwy ddatblygu Strategaeth Mamolaeth a Blynnyddoedd Cynnar Rhanbarthol a Chynlluniau Gweithredol cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r cyllid ar gyfer 2021/2022 i barhau â'r gwaith hwn.

Roedd y cyllid hwn ar gyfer 2020/21 hefyd yn helpu i sefydlu cynllun peilot Tîm Integreiddio Blynnyddoedd Cynnar Cwm Gwendraeth. Cafodd yr holl staff a ariannwyd drwy'r grant hwn – Cydgysylltydd Integreiddio'r Blynnyddoedd Cynnar, Swyddog Perfformiad a Chyllid, Cysylltydd Cymunedol a dau Weithiwr Cymorth i Deuluoedd - eu recriwtio i'r tîm erbyn mis Medi 2021 a daeth y tîm yn gwbl weithredol. Mae Ymwelwyr Iechyd a Bydwagedd hefyd yn rhan o strwythur y tîm. Mae'r tîm wedi bod yn profi ffyrdd arloesol o weithio gyda theuluoedd yn ystod y pandemig drwy ddatblygu tudalen we bwrpasol ar gyfer Teuluoedd Cwm Gwendraeth ac ap ar gyfer cael gafael ar wybodaeth ochr yn ochr â chyflwyno rhaglenni'n rhithwir. Mae'r Tîm hefyd yn profi ffyrdd o weithio ar draws partneriaid Iechyd, Cymorth i Deuluoedd a'r trydydd sector a fydd yn gwella'r broses o nodi angen yn gynnar ac ansawdd yr atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud i asiantaethau amrywiol. Cadarnhawyd mewn egwyddor fod y cyllid hwn yn parhau am flwyddyn arall hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022.

Gweithio Rhanbarthol

Mae datblygiadau sylweddol wedi parhau o ran gweithio'n rhanbarthol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

1. rhwng swyddogion arweiniol y BGC o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro,
2. gyda'r tri BGC a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru,
3. cyfarfod rhanbarthol ar y cyd rhwng BGC Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys a'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ar gyfer Gorllewin Cymru a Phowys ym mis Tachwedd 2020.



Swyddogion arweiniol y BGC

Mae'r gwaith agos gydag arweinwyr y BGC ar gyfer Ceredigion a Sir Benfro wedi parhau a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gan y swyddogion a dyma'r prif feysydd gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- cafodd y gwaith o ddatblygu'n barhaus System Wybodaeth Ddigidol ranbarthol arloesol ei gomisiynu ar y cyd gan y tri BGC gan ddefnyddio cyllid rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru a chyda chyfraniad hefyd o Gronfa Drawsnewid Gorllewin Cymru. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol hefyd yn rhan o'r gwaith parhaus o ddatblygu a gweithredu'r system. Mae'r platfform ar-lein bron â'i gwblhau – dechreuodd y profion ddiwedd mis Ebrill 2021 a disgwylir i'r system fynd yn fyw erbyn mis Mehefin 2021. Bydd y system yn helpu i asesu llesiant, perfformiad, trefniadau adrodd a chyfluoedd ymgysylltu yn y dyfodol. Bydd yn storfa ganolog i holl aelodau'r BGC, rhanddeiliaid a dinasyddion ar gyfer yr holl gofnodion a dadansoddi parhaus sy'n ymwneud â llesiant. Nod y system yw pontio'r bwlch pum mlynedd rhwng cyhoeddi'r asesiadau, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am lesiant yn cael ei defnyddio'n barhaus pan fydd tystiolaeth newydd ar gael.
- cytuno ar ddull gweithredu ar y cyd eto i gynnal yr Asesiad o Lesiant Lleol. Fel o'r blaen, bydd pob BGC unwaith eto yn llunio ei Asesiad Llesiant ei hun, erbyn mis Mai 2022, gan blethu hynny lle bo modd â'r broses ar gyfer Asesiad Anghenion Poblogaeth y BGC, ond caiff y rhain eu datblygu gan ddefnyddio methodoleg gyson ar draws y rhanbarth. Mae gweithgor rhanbarthol wedi'i sefydlu ac mae wedi cynhyrchu Fframwaith Methodoleg ar y Cyd rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n amlinellu'r dull cyfunol hwn. Mae'n nodi sut y bydd y

Byrddau'n cydweithio ar draws y pedwar cam (adolygu data, dadansoddi, ymgysylltu a'r camau nesaf), y gwahanol fathau o grwpiau y dylid ymgysylltu â hwy a'r mathau o dechnegau ymgysylltu a ddefnyddir. Mae Fframwaith Ymgysylltu Rhanbarthol yn cael ei ddatblygu a fydd yn amlinellu'r dull o ymgysylltu ac ymgynghori ar yr asesiad.

- Llwyddodd cais y tri BGC i Lywodraeth Cymru i ddefnyddio ei dyraniad rhanbarthol o gyllid ar gyfer Cydgysylltydd Prosiect i helpu i baratoi a chynhyrchu'r Asesiadau Llesiant Lleol. Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn arwain ar reoli'r swydd Cydgysylltydd Prosiect ar ran y tri BGC.

- Mae'r tri BGC wedi gwneud cais, fel clwstwr, i elwa ar gymorth mewn perthynas â chyd-gynhyrchu a chynnwys, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar asesiadau Llesiant Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru Mae'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu wedi sicrhau 5 mlynedd o gyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i weithio gyda thri BGC neu glwstwr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan adeiladu ar y gyfres gyntaf o asesiadau Llesiant i wella'r arfer o ymgysylltu a chynnwys. Y gobaith yw y bydd y cais yn llwyddiannus a bydd gwaith yn dechrau ym mis Mehefin 2021.






wwcp

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru West Wales Care Partnership

Mae'r Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, fel arweinydd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, yn aelod o'r BGC ac mae'n rhoi diweddariadau rheolaidd yng nghyfarfodydd y BGC ar Raglen Drawsnewid Gorllewin Cymru lachach a gwaith ehangach y Bartneriaeth . Mae'r diweddariadau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar y meysydd lle mae cysylltiadau clir rhwng blaenoriaethau'r ddau Fwrdd er mwyn sicrhau aliniad agos. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal i ddatblygu prosiectau ar y cyd sy'n derbyn arian o Gronfa Drawsnewid Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi amcanion y BGC megis hyrwyddo gwirfoddoli a chymunedau cydnerth, ymgysylltu â'n cymunedau ac atebion cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd.

Cynhaliwyd trafodaethau penodol eleni yn ymwneud â'r Rhaglenni 'Gofal Rhagweithiol trwy Gymorth Technoleg ' (Connect) a 'Creu Cysylltiadau i Bawb'. Mae rhaglen 'Connect' yn darparu gofal rhagweithiol i bobl, gan ddefnyddio technoleg briodol i hyrwyddo a chefnogi rheoli cyflyrau cronig, lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, lleihau derbyniadau i'r ysbyty a defnyddio gwasanaethau brys. Mae 'Creu Cysylltiadau i Bawb yn ymgysylltu â chymunedau i ddatblygu iechyd a llesiant.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn parhau i gael eu cynnal rhwng arweinwyr y BGC ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro a'r Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol i ddatblygu cydweithio.



Mae rhai o'r meysydd penodol o weithio integredig sydd wedi parhau i gael eu datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

1. trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion ar lefel ranbarthol a lleol - mae'r Bwrdd Iechyd yn cydgysylltu'r gwaith hwn i ddatblygu dull sector cyhoeddus o gynnwys ac ymgysylltu. Yn dilyn trafodaeth gyda phartneriaid y BGC ynghylch cyfleoedd cydweithredol i ymgysylltu â'n cymunedau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu systemau digidol sy'n gallu cefnogi mwy o ymgysylltu â dinasyddion. Mae nifer o sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC yn cymryd rhan yn y prosiect gyda'r nod o greu dull ymgysylltu cyson ar draws nifer o gyrff gwahanol yn y sector cyhoeddus. Bwriedir defnyddio'r llwyfan 'Engagement HQ' yn ystod cam ymgysylltu'r Asesiad Llesiant.
2. datblygu'r System Wybodaeth Ddigidol fel yr amlinellir uchod.

Cyfarfod rhanbarthol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Ranbarthol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys

Cynhaliwyd cyfarfod rhanbarthol blynyddol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys a'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ar gyfer Gorllewin Cymru a Phowys ar 4 Tachwedd, 2020 ac fe'i cynhaliwyd gan BGC Ceredigion. Cafwyd cyfres o gyflwyniadau yn ymwneud â materion rhanbarthol allweddol cyfredol:

- Diweddariad ar y System Wybodaeth Ddigidol
- Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol - Gweithio Gyda'n Gilydd – safbwynt y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol
- Blaenoriaethau strategol a chysylltiadau â BGC – Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Uwch-gynhadledd Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd - adroddiad Ionawr 2020
- Fforwm Lleol Cymru Gydnerth a'r ymateb i Covid-19
- Adroddiad gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau



Pum Ffordd o Weithio

Mae'r BGC wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn ei gynlluniau a'i drefniadau gweithio, gan geisio ystyried y pum ffordd o weithio yn ei holl waith. Mae hyn yn amlwg yn y prosiectau a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn.

Tymor Hir



Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

Atal



Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethgu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Integreiddio



Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio



Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

Cynnwys Pobl



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Mae'r fenter canolfannau amlasiantaeth/amlsector yng nghanol trefi/mewn cymunedau yn edrych ar sut y gellir gwneud gwell defnydd o'r adeiladau

sydd gan bartneriaid BGC. Gan y bydd newidiadau tebygol i ffyrdd o weithio yn y dyfodol, oherwydd i'r pandemig ddangos bod staff yn gallu gweithio gartref yn llwyddiannus, mae partneriaid yn adolygu **ar y cyd** yr adeiladau sydd eu hangen ar eu staff i weithio a darparu gwasanaethau. Mae **integreiddio'n** cael ei drafod, gan edrych ar opsiynau i ddod â staff o wahanol sefydliadau ynghyd i weithio yn yr un adeiladau, gan arbed lle a chostau cynnal.

Mae dull **hirdymor** yn cael ei ystyried i newid ymddygiad a diwylliant y sefydliadau a'r cymunedau o ran sicrhau dulliau **ar y cyd** ar gyfer ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mae hwn hefyd yn ddull **ataliol** i atal pethau rhag gwaethgu. Mae hyn yn cynnwys y cynllun gwydnwch hinsawdd ar gyfer Castellnewydd Emlyn sydd wedi'i ddatblygu ac sy'n cael ei ddatblygu a'r gweithdy lleihau carbon a gynlluniwyd.

Mae'r gwaith yn Nhyisha sy'n **cynnwys** y gymuned leol i fynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n peri pryder sy'n bwysig i'r gymuned leol yn parhau ac yn dechrau cael effaith ar adfywiad yr ardal. Bydd pobl leol yn elwa ar fyw mewn lle mwy diogel a phleserus.

Roedd y fenter plannu coed yn **cynnwys** aelodau lleol o'r gymuned yn gwirfoddoli i blannu bron i 2,350 o goed, gan greu safleoedd coetir newydd i bawb eu mwynhau nawr ac yn y **tymor hir** wrth i'r ardaloedd barhau i ddatblygu.

Mae Tîm Integreiddio'r Blynnyddoedd Cynnar yn cyflwyno ymagwedd **ataliol**, gan ddatblygu gwaith **integredig** ar draws proffesiynau a sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd yn ystod blynnyddoedd cynnar bywydau eu plant.

Roedd y Seilwaith Gwyrdd yn **cynnwys** rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y gymuned fusnes yn y trafodaethau.

Mae camau **ataliol** yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau er mwyn atal pobl agored i niwed rhag dod yn ddioddefwyr drwy ddull **cydweithredol**, amlasiantaethol sydd wedi'i dargedu.

Meysydd i'w datblygu dros y flwyddyn sydd i ddod

Meysydd blaenoriaeth eraill i'w datblygu:

- Paratoi'r asesiad llesiant nesaf, gyda chymorth y system wybodaeth ddigidol newydd a'r platfform ymgysylltu erbyn mis Mai 2022.
- Dechrau gweithio i ddatblygu'r Cynllun Llesiant newydd, gan gynnwys yr hyn a ddysgwyd o adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Sicrhau bod ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu newydd yn cael eu cyflawni fel y'u hadolygwyd yn ystod y flwyddyn a pharhau i gydweithio fel partneriaid yn y sector cyhoeddus i fynd i'r afael â'r materion allweddol y mae Sir Gaerfyrddin yn eu hwynebu fel rhan o adferiad yn sgil COVID-19.
- Adolygu a sicrhau aliniad a chydweithio agosach â phartneriaethau strategol rhanbarthol eraill i sicrhau bod pob cyfle'n cael ei gymryd i ymgysylltu a gweithio gyda phartneriaethau rhanbarthol eraill.
- Parhau i integreiddio ymhellach ein gwaith gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gyda gwaith cydweithredol i resymoli'r trefniadau cyflawni a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i weithredu'r ddau Gynllun.
- Datblygu gwefan y BGC i sicrhau ei bod yn arf effeithiol i roi cipolwg ar waith y BGC a hyrwyddo'r ymdrechion cydweithredol sy'n digwydd a'r llwyddiannau wrth gyflawni'r Cynllun Llesiant
- Datblygu cynnig ar gyfer sianeli cyfathrebu BGC ehangach i godi ymwybyddiaeth ymysg ein cymunedau o waith y BGC, y camau sy'n cael eu cymryd a'r cyflawniadau hyd yma.

